Stonewall
C Y M R U

Gwyliwch Allan

Ymdriniaeth deg o bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yng Nghymru

Gwyliwch Allan

Mae Prosiect Cyfryngau Gwyliwch Allan Stonewall Cymru yn hyrwyddo ymdriniaeth deg o faterion lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn y cyfryngau yng Nghymru. O Wales Today i'r Western Mail, Post Prynhawn i Pobol y Cwm rydym yn gweithio gyda newyddiadurwyr ac ymchwilwyr ledled Cymru i geisio sicrhau bod y portread o fywyd hoyw yn cynrychioli Cymru'r unfed ganrif ar hugain.

Wedi'i gyllido am 3 blynedd gan Comic Relief, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y ffordd y mae materion lesbiaidd, hoyw a deurywiol (LHD) bellach yn cael eu hadrodd, yn cyfrannu at nifer o raglenni teledu a radio, ac erthyglau cylchgronau a phapur newydd proffil uchel, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r adroddiad prosiect hwn yn tynnu sylw at ganfyddiadau allweddol a llwyddiannau prosiect Gwyliwch Allan, ac yn awgrymu argymhellion a fydd yn sicrhau bod pobl lesbiaidd a hoyw yn parhau i gael eu portreadu'n realistig yn allbwn teledu, radio a phrint Cymru.

I lwytho'r adroddiad hwn i lawr a chael mwy o wybodaeth am y prosiect ac adnoddau ar-lein ar gyfer newyddiadurwyr, ymchwilwyr a chynulleidfaoedd lesbiaidd, hoyw a deurywiol ewch at:

www.stonewallcymru.org.uk/gwyliwchallan

Liz Morgan
Cyfarwyddydd

Matthew Batten
Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus

Iaith "Rwyt ti mor 'gay'"

Mae'r cyfryngau'n offeryn pwerus. Mae gan y teledu, radio, papurau newydd a chylchgronau'r gallu i addysgu, rhoi gwybodaeth a herio unigolion. Ond gallant hefyd fod yn niweidiol i bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol drwy gynnal agweddau homoffobaidd. Mae'r defnydd difeddwl o iaith homoffobaidd yn y cyfryngau yn destun pryder cynyddol. Defnyddir 'gay' yn gyson gan bersonoliaethau yn y cyfryngau i olygu bod rhywbeth, neu rywun, yn 'anobeithiol' neu 'wan'. Tynnwyd sylw at Chris Moyles, Jeremy Clarkson a Patrick Kielty o'r BBC gan gefnogwyr Stonewall Cymru am eu defnydd o sylwadau homoffobaidd ar yr awyr. Galwodd 'Rose Tyler', cyfaill Doctor Who, y Doctor yn "so gay", hyd yn oed, ar ôl iddo gwyno am gael ei daro ar ei wyneb.

Pan fo sêr uchel eu proffil neu gymeriadau dychmygol yn defnyddio 'gay' fel ymadrodd difrïol, mae'n anfon neges glir i'w cynulleidfa, nifer ohonynt yn bobl ifanc argraffadwy, bod 'hoyw' yn rhywbeth i'w gywilyddio ynddo neu 'ychydig o jôc'.

Mae cysylltiad cryf rhwng defnydd difeddwl iaith homoffobaidd ar rai rhaglenni radio a theledu, a defnydd eang yr un ymadroddion i fwlio plant mewn ysgolion ledled Prydain. Gall y cyfryngau chwarae rhan sylweddol wrth drawsnewid bywydau disgyblion ifanc lesbiaidd a hoyw sy'n rhy ofnus i fynd i'r ysgol rhag ofn dioddef ymosodiadau yn gorfforol neu ar lafar.

Mae The School Report Stonewall, arolwg o dros 1100 o bobl ifanc a gyhoeddwyd ym Mehefin 2007, yn dangos bod iaith homoffobaidd yn endemig mewn ysgolion. Mae 98% o ddisgyblion hoyw yn clywed ymadroddion dilornus megis "mae mor gay" neu "rwyt ti mor gay" yn yr ysgol. Mae saith allan o bob deg yn dweud bod y bwlio yn effeithio ar eu gwaith ysgol. Hyd yn oed os nad yw disgyblion hoyw yn dioddef bwlio uniongyrchol; maent yn dysgu mewn awyrgylch lle mae iaith homoffobaidd yn gyffredin.

"Mae anwybyddu'r broblem hon cystal â chyfrannu ati. Mae troi llygad ddall tuag at alw enwau difeddwl, gan edrych y ffordd arall gan ei bod yn haws, yn hollol annerbyniol"

Kevin Brennan AS, Gweinidog Plant, yn siarad yng Nghynhadledd Addysg i Bawb Stonewall, 2007

I glywed sut mae Stonewall Cymru yn taclo bwlio homoffobaidd ewch at ein gwefan Addysg i Bawb: www.stonewallcymru.org.uk/educationforallcymru

Ystrydebau a datganiadau negyddol

Un erthygl a ysgogodd fwy o gwynion nag unrhyw un arall yn ystod tair blynedd y prosiect oedd myfyrdodau Lowri 'Celebrity Fit Club' Turner ar ddynion hoyw mewn gwleidyddiaeth.
Yn ei cholofn wythnosol yn y Western Mail, honnodd Ms Turner nad yw dynion hoyw yn addas i lywodraethu'r wlad gan fod eu ffyrdd o fyw yn "rhy bell o'r norm." Gan mai cur pen mwyaf ei chyfeillion hoyw oedd penderfynu rhwng soffa lliw hufen neu un ddu, meddai Lowri Turner, "nid yw dynion hoyw yn addas i gynrychioli diddordebau'r boblogaeth yn gyffredinol."

Yn amlwg, derbyniodd Gwyliwch Allan nifer fawr o lythyron cwyno oddi wrth bobl lesbiaidd a hoyw ledled Cymru a oedd wedi'u tramgwyddo gyda'r fath syniad ystrydebol o ddynion hoyw a deurywiol. Fel y nodwyd gan un cefnogwr:

"Ymddengys bod Ms Turner yn byw mewn Cymru arall, lle mae pob dyn a menyw heterorywiol yn gadarn a chryf, ac eto yn empathetig a gofalus. Yn ei byd hi, mae'n amlwg bod pob un hoyw yn bobl sy'n mwydro, ac na ellir ymddiried ynddynt. Dyna gysur yw byw mewn ymennydd mor syml!"

Cafwyd beirniadaeth lem hefyd gan ein cefnogwyr yn sgil erthyglau am leoliadau rhyw cyhoeddus, neu 'cruising'. Yn aml, mae'r erthyglau hyn yn awgrymu bod dynion hoyw yn llac eu moesau ac yn rheibus yn rhywiol, gan anwybyddu'r ffaith y gall y dynion sy'n crwydro am ryw alw'i hunain yn heterorywiol. Mae erthyglau o'r fath yn cyffredinoli'n annheg am foesoldeb dynion hoyw a deurywiol ac, oherwydd bod y mannau lleol yn aml yn cael eu rhestru, mae'n bosib eu bod yn hwyluso ysgogiad troseddau casineb yn erbyn y dynion.

Mae'r cyfryngau yn chwarae rhan enfawr wrth ddylanwadu ar farn gyhoeddus tuag at bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol. Mae'n rhwydd iawn diystyru rhagdybiaethau ystrydebol fel hwyl ddiddrwg, ddiniwed, ond mae ystrydebau, pan mai dyna'r unig ddelweddau sy'n cael eu portreadu, yn niweidiol ac yn medru ysgogi erledigaeth bobl lesbiaidd a hoyw.

Canfu ymchwil a gomisiynwyd gan Stonewall Cymru (Eich Cyfrif Neu'ch Eithrio, 2003) bod cyfran fawr o bobl lesbiaidd a hoyw yn teimlo eu bod wedi dioddef camwahaniaethu a chamdriniaeth o achos y portreadau yn y cyfryngau. Roedd y ffurfiau mwyaf cyffredin o gamwahaniaethu, a brofwyd gan 65-69% o'r rhai a ymatebodd, yn cynnwys "cael eich tramgwyddo gan ddatganiadau cyhoeddus am foesoldeb hoywon" a "cael eich tramgwyddo gan erthyglau neu erthyglau golygyddol yn y cyfryngau print". Sefydlwyd Gwyliwch Allan o ganlyniad uniongyrchol i'r canfyddiadau hyn.

Er gwaethaf ymdrechion Gwyliwch Allan i adeiladu perthynas gyda'r cyfryngau yng Nghymru a'r cynnydd sylweddol yn yr adroddiadau teg am fywydau LHD, mae barn bobl LHD yng Nghymru yn parhau i fod yn negyddol iawn am y cyfryngau print a darlledu. Datgelodd canlyniadau trydydd arolwg Stonewall Cymru o bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yng Nghymru (Eich Cyfrif a'ch Cynnwys, 2007) bod:

- ★ 60% o bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol wedi'u tramgwyddo gan bortread o bobl hoyw ar y teledu
- ★ 63% wedi'u tramgwyddo gan erthyglau yn y wasg, a
- ★ 59% gan ddatganiadau cyhoeddus am bobl LHD
- ★ 65% wedi'u tramgwyddo gan y diffyg portread cadarnhaol o bobl LHD ledled bob cyfrwng.

Yr effaith oedd gwneud 49% o'r rhai a holwyd yn bryderus am erledigaeth homoffobaidd yn sgil portreadau yn y cyfryngau.

Mae Gwyliwch Allan yn ymateb i nifer o enghreifftiau o ystrydebau sarhaus neu ddatganiadau cyhoeddus ar foesoldeb bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol. Gofynnwn i gael cwrdd gyda golygyddion neu wneuthurwyr rhaglenni ac rydym yn anfon ein hadroddiadau ymchwil diweddaraf er gwybodaeth. Ac rydym bob amser yn annog pobl lesbiaidd a hoyw i herio newyddiadurwyr a gwneuthurwyr rhaglenni os ydynt wedi'u tramgwyddo gan y ffordd y maent yn cael eu portreadu. Wedi'r cyfan, nhw sy'n edrych ar y radio neu deledu, neu'n gwario eu harian prin ar gyhoeddiadau'r wasg.

Amlygrwydd cymeriadau hoyw ar y teledu

Mae cymeriadau lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn amlwg ar nifer o brif raglenni BBC Cymru ac S4C. Yr un amlycaf yw'r cymeriad carismataidd, Capten Jack, a bortreadir gan yr actor agored, John Barrowman, yn Doctor Who a Torchwood. Mae Capten Jack yn fflyrtio gyda'r Doctor a'i gydymaith benywaidd, mewn rhaglen amser te sydd wedi'i anelu at gynulleidfa deuluol, ac eto mae'n parhau i fod yn gymeriad poblogaidd iawn, a'i rywioldeb yn ymylol i'r rhaglen.

Cafwyd cymeriadau lesbiaidd a deurywiol yn yr opera sebon Gymraeg, Pobol y Cwm, yn fwyaf diweddar mewn stori bwysig gyda 'Brit' a 'Gwyneth', ac mae'r cymeriadau hynny yn parhau i gael straeon sydd ar wahân i'w rhywioldeb. Mae'r ddrama Caerdydd ar S4C yn cynnwys straeon hoyw amlwg, ac mae gan y gyfres ddrama Belonging ar BBC One Wales gymeriadau hoyw amlwg gan gynnwys, yn y gyfres yn 2007, stori'n datblygu rhwng menyw ganol oed, agored lesbiaidd, a menyw wedi ysgaru.

Eto roedd canfyddiadau adroddiad Tuned Out Stonewall, 2006, a oedd yn ymchwilio i'r portreadau o bobl lesbiaidd a hoyw yn ystod 168 munud o raglenni oriau brig ar BBC Un a BBC Dau, yn dangos nad oedd pobl hoyw sy'n talu am eu trwydded deledu yn derbyn gwerth eu harian. Portreadwyd bywyd hoyw yn realistig am ddim ond chwe munud, ac allan o 168 munud o raglenni, 38 munud yn unig oedd o gyfeiriadau hoyw, cadarnhaol neu negyddol. Nodwyd nad oedd lesbiaid "prin yn bodoli ar y BBC." (Tuned Out, 2006).

Mae profiad Gwyliwch Allan o raglenni BBC Cymru ychydig yn wahanol i rwydwaith BBC Un a BBC Dau. Cynrychiolir cymeriadau lesbiaidd, hoyw a deurywiol mewn rhai rhaglenni Cymraeg a Saesneg. Rydym wedi gweithio'n agos gydag adrannau materion cyfoes a drama er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth gywir a phrofiadau gwirioneddol pobl LHD er mwyn sicrhau bod bywyd hoyw yng Nghymru yn cael ei bortreadu'n realistig.

Serch hynny, er gwaethaf y gwaith cadarnhaol sy'n digwydd yng Nghymru, gall enw da'r BBC gael ei danseilio gan sylwadau homoffobaidd gan sêr y rhwydwaith megis Chris Moyles a Jeremy Clarkson.

Ymgysylltu gyda chynulleidfaoedd

Rhan hanfodol o waith Gwyliwch Allan fu cychwyn grymuso bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol i deimlo bod modd iddynt gyfranogi mewn trafodaethau yn y cyfryngau. Bu hyn yn arbennig o bwysig gan ein bod yn derbyn ceisiadau yn gyson gan newyddiadurwyr i ddarparu astudiaethau achos ar gyfer adroddiadau newyddion neu raglenni dogfen.

Buom yn gweithio gyda Quadrant Media & Communications Ltd i gynllunio rhaglen hyfforddiant y cyfryngau, a oedd yn cynnwys technegau cyfweliadau cyfryngau llwyddiannus a phrofiadau ymarferol o wneud cyfweliadau radio a theledu, yn fyw ac wedi'u recordio o flaen llaw, a pharatoi ar gyfer cyfweliadau ar gyfer y wasg a dros y ffôn. Derbyniodd dros 30 o bobl LHD, yn cynrychioli grwpiau LHD a rhai nad ydynt yn LHD, neu bobl yn siarad am brofiad personol, yr hyfforddiant cynhwysfawr hwn. Rydym wedi ymrwymo i gynrychioli'r amrywiaeth o fewn y gymuned LHD, ac wedi hyfforddi pobl lesbiaidd, deurywiol, dynion hoyw, pobl hyn ac iau, pobl o ffydd a phobl ag anabledd, ac mae nifer wedi rhoi cyfweliadau i'r cyfryngau lleol a chenedlaethol.

Er mwyn i Gwyliwch Allan ymgysylltu yn llawn gyda chynulleidfaoedd ledled Cymru, roedd angen i ni fod yn rhagweithiol gyda'n defnydd o gyfryngau newydd er mwyn cyrraedd at bobl nad ydynt yn defnyddio cyfryngau traddodiadol Cymreig. Mae'r rhyngrwyd yn ffordd boblogaidd o gyrraedd at wybodaeth, yn arbennig ymysg bobl ifanc, ac roedd ymgynghoriad gyda grwpiau LHD a rhai nad ydynt yn LHD yn awgrymu bod angen gwefan yn cynnwys gwybodaeth LHD penodol i Gymru. Roeddem hefyd yn cydnabod bod newyddiadurwyr angen mynediad uniongyrchol at wybodaeth gywir ar ystod eang o faterion LHD penodol i Gymru. Gan gofio hynny, datblygwyd gwefan ddwyieithog, glir, hawdd ei defnyddio, sy'n darparu'r newyddion, gwybodaeth ac ymchwil ddiweddaraf ar ystod eang o faterion LHD penodol i Gymru. Lansiwyd gwefan Stonewall Cymru ym mis Medi 2005 ac mae'n parhau i dderbyn dros 2000 o ymweliadau bob mis.

Mewn partneriaeth gyda Canllaw Online, sy'n datblygu a chefnogi gwasanaethau gwybodaeth i bobl ifanc, cynhaliwyd cyfres o sgyrsiau ar y we, er mwyn i bobl ifanc sgwrsio gyda'i gilydd a gyda phobl broffesiynol, a rhannu profiadau am fwlio homoffobaidd a diogelwch personol. Roedd modd i bobl ifanc siarad gyda chynrychiolwyr o sefydliadau megis ChildLine, Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh, Llinell Gymorth LHDT Cymru ac Uned Cefnogaeth Lleiafrifoedd De Cymru a gofyn am gyngor a chefnogaeth bellach. Mae sgyrsiau ar y we yn ffyrdd ardderchog o ymgysylltu gyda phobl ifanc mewn ffordd sy'n berthnasol iddynt. Bu'r ymateb yn gadarnhaol iawn ac mae wedi ein hannog i barhau i ddefnyddio sgyrsiau ar y we i gyrraedd at gynulleidfaoedd newydd.

Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar opsiynau o ddefnyddio podlediad a vodlediad, a fydd yn galluogi pobl i lwytho deunydd sain a fideo i lawr i'w ffonau symudol, chwaraewyr MP3 a gliniaduron. Mae podledu yn boblogaidd ymysg pobl iau felly byddwn yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar wneud rhaglenni ar fwlio homoffobaidd mewn ysgolion/colegau a'r gweithle, ac yna yn datblygu pod a vodlediadau i edrych ar ymgyrchoedd eraill, er enghraifft; troseddau casineb, gofal iechyd a chynrychiolaeth LHD yn y cyfryngau. Bydd cynhyrchu ein cynnwys sain/fideo ein hunain yn rhoi cyfle i ni drosglwyddo gwybodaeth hanfodol mewn ffyrdd newydd a chyffrous.

Argymhellion

Mae cynrychiolaeth o bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol wedi gwella ers i Gwyliwch Allan gychwyn monitro'r cyfryngau yng Nghymru. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith er mwyn sicrhau bod materion LHD yn cael eu portreadu yn gywir yn y cyfryngau Cymraeg a Saesneg.

Rydym wedi datblygu nifer o argymhellion er mwyn annog cynrychiolaeth deg o bobl hoyw yng nghyfryngau Cymru.

Mae Gwyliwch Allan yn argymell y dylai newyddiadurwyr a gwneuthurwyr rhaglenni:

- ★ gymryd camau brys i edrych ar sylwadau homoffobaidd difeddwl yn eu hallbwn
- ★ ddefnyddio rhestr termau cydraddoldeb Gwyliwch Allan ar-lein, sy'n rhestri iaith sarhaus ac yn awgrymu termau gwahanol. www.stonewallcymru.org.uk/language
- ★ sicrhau bod ymdriniaeth o faterion lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn osgoi gor-gynnwrf, a deall effaith cynnal ystrydebau
- ★ ymgynghori gyda Stonewall Cymru a grwpiau cymunedol LHD lleol er mwyn sicrhau bod y portread o bobl LHD yn cynrychioli Cymru'r unfed ganrif ar hugain yn realistig
- ★ sicrhau bod cymeriadau lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn cael eu portreadu yn realistig a chywir.

Gall Gwyliwch Allan hefyd ddod o hyd i bobl 'go iawn' ar ran newyddiadurwyr, i siarad am eu profiadau personol ar ystod o faterion LHD. Os hoffech weithio gyda ni, cysylltwch â: cymru@stonewallcymru.org.uk neu ffoniwch 029 2023 7744.

www.stonewallcymru.org.uk

Mwy o wybodaeth

Prosiect Cyfryngau Gwyliwch Allan
www.stonewallcymru.org.uk/lookout
www.stonewallcymru.org.uk/gwyliwchallan

Tuned Out: Portread y BBC o bobl lesbiaidd a hoyw
www.stonewall.org.uk/tunedout

ARIANNWYD GAN

COMIC RELIEF

Cynlluniwyd a chynhyrchwyd gan
Commedia
Cardiff House
Cardiff Road
CF63 2AW
0845 130 1508

Stonewall
C Y M R U

Stonewall Cymru

Cardiff
3ydd llawr
Transport House
1 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9SB
Ffôn 029 2023 7744

Bangor
Tŷ Gwydr
1 Rhes Trefelyan
Stryd Fawr
Bangor
LL57 1AX
Ffôn 0845 4569823
Fax 07092 333962

cymru@stonewallcymru.org.uk
www.stonewallcymru.org.uk